**LC238**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**
Mae’r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliadau’r CE sy’n cynnwys rheolau ynghylch cynhyrchu a marchnata gwin a chynhyrchion cysylltiedig. Mae’r rheoliadau’n diddymu ac yn disodli Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1996.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi pryderon mewn perthynas â phwyntiau drafftio y manylir arnynt isod.

Ystyrir bod y pwyntiau hyn yn briodol ar gyfer eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau, a hysbyswyd y Pwyllgor fod y Gweinidog yn bwriadu gosod Memorandwm Cywiriadau priodol gerbron y Cynulliad. Gan hynny, ar yr amod bod y pwyntiau hyn yn cael eu cywiro, fel y nodir isod, mae’r Pwyllgor yn gallu cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw faterion y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Rheoliad 2(1) – "Darpariaeth gymunedol"**
Caiff hwn ei ddiffinio i olygu "…unrhyw un o ddarpariaethau unrhyw un o Reoliadau’r Cymunedau Ewropeaidd y cyfeirir ati yn Atodlen 1…". Er hynny, yn ogystal â chyfeirio at Reoliadau, mae Atodlen 1 yn cyfeirio at Ddeddfau (paragraffau 3 a 6) a Phenderfyniadau (paragraffau 16,17,18 ac 21).

Hysbyswyd y Pwyllgor mai’r bwriad yw ychwanegu "Penderfyniad neu Ddeddf" at y diffiniad.

**Rheoliad 2(1) – "food analyst"**
Yn llinell 5 caiff "analysis" ei gywiro i "analyst"

**"rhanbarthau penodedig"**
Caiff hwn ei ddiffinio yn Rheoliad 2(1) fel "gwinllannoedd yng Nghymru fel y’u diffinnir yn rheoliad 13".

Dyma mae rheoliad 13(1) yn ei ddweud -

> "Gwinllannoedd yng Nghymru, sef ardaloedd y rhanbarthau a ddisgrifir yn Atodlen 4, yw’r rhanbarthau penodedig yng Nghymru at ddibenion Pwynt A o Atodiad VI i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999."

Mae pennawd Atodlen 4 yn cyfeirio at "Rhanbarthau" yn y lluosog i ddechrau ond wedyn mae’n cyfeirio at: "Rhanbarth Penodedig Gwinllannoedd Cymru".

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr ansicrwydd sy’n codi o’r uchod i’w gywiro fel a ganlyn -

- Diwygio’r diffiniad yn rheoliad 2(1) i gyfeirio at "y rhanbarthau a ddiffinnir yn rheoliad 13".
- Diwygio Rheoliad 13 drwy ddileu "Gwinllannoedd yng Nghymru, sef ardaloedd"

- Diwygio Atodlen 4 fel bod y pennawd yn cyfeirio at "rhanbarthau penodedig" yn y ddau le.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001